


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 214A2013

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Justine Morgan a Colin Davies o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella'n dda ac mae'n sicrhau bod ei ddinasyddion yn cael asesiad cynhwysfawr o berfformiad sy'n canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau, ond gallai werthuso'n fwy clir y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella 8

Mae perfformiad gwasanaethau allweddol y Cyngor yn gymysg, ond mae'r Cyngor wedi sefydlu cynlluniau y bwriedir iddynt gyflawni gwelliannau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth 8

Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi ennill ei blwyf, ac mae'r trefniadau cyfredol yn sicrhau bod dinasyddion yn cael darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor 12

Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant yn gadarn 15

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 19

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 20

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 22

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 25

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella'n dda ac mae'n sicrhau bod ei ddinasyddion yn cael asesiad cynhwysfawr o berfformiad sy'n canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau, ond gallai werthuso'n fwy clir y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.

3 Nodwyd y canlynol gennym: Mae perfformiad gwasanaethau allweddol y Cyngor yn gymysg, ond mae'r Cyngor wedi sefydlu cynlluniau y bwriedir iddynt gyflawni gwelliannau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth:

- mae'r Cyngor yn parhau i wynebu galw mawr a chynyddol am ei wasanaethau cymdeithasol, ac mae wedi sefydlu blaenoriaethau clir a mentrau newydd y bwriedir iddynt gyflymu'r gwelliant a'r gwaith moderneiddio sy'n ofynnol;
- mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn ddigonol ac mae ganddo ragolygon digonol ar gyfer gwella;
- mae'r Cyngor yn helpu i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant;
- mae'r Cyngor yn sicrhau bod taliadau budd-dal tai i'w ddinasyddion yn amserol ac yn gywir.

4 Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi ennill ei blwyf, ac mae'r trefniadau cyfredol yn sicrhau bod dinasyddion yn cael darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ynghylch gwelliant dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2011/12* y Cyngor (yr Adroddiad) yn gynhwysfawr, yn deg ac yn gytbwys ac mae'n canolbwyntio'n fwy manwl ar ganlyniadau i ddinasyddion, ond gallai werthuso'n fwy clir gynnydd cyffredinol y Cyngor o safbwynt cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella;
- cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau;
- mae'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio yn ei fusnes.

5 Yn olaf, mae’r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae’r Cygnor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i’r casgliad canlynol: Mae’r modd y mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant yn gadarn:

- mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwelliant dan y Mesur ac mae wedi gweithredu’n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae’r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o safbwynt mynd i’r afael â’r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol;
- mae gan y Cyngor ddull cadarn o sicrhau effeithlonrwydd a darparu adnoddau ar gyfer gwelliannau arfaethedig mewn gwasanaethau;
- mae’r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio ei drefniadau llywodraethu;
- mae’r Cyngor wedi cydymffurfio â’r gofyniad iddo wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

# Argymhellion

6 Nid oes unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn flaenorol. Mae'r cynigion hynny ar gyfer gwella wedi eu nodi yn ein llythyrau asesiadau gwella a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hynny ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella'n dda ac mae'n sicrhau bod ei ddinasyddion yn cael asesiad cynhwysfawr o berfformiad sy'n canolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau, ond gallai werthuso'n fwy clir y cynnydd a wneir tuag at gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella

### Mae perfformiad gwasanaethau allweddol y Cyngor yn gymysg, ond mae'r Cyngor wedi sefydlu cynlluniau y bwriedir iddynt gyflawni gwelliannau mewn meysydd sy'n flaenoriaeth

#### Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu galw mawr a chynyddol am ei wasanaethau cymdeithasol, ac mae wedi sefydlu blaenoriaethau clir a mentrau newydd y bwriedir iddynt gyflymu'r gwelliant a'r gwaith moderneiddio sy'n ofynnol

11 Mae Rhondda Cynon Taf yn wynebu galwadau mawr iawn am wasanaethau cymdeithasol, yn enwedig gwasanaethau i blant. Mae hynny'n arwain at bwysau parhaus ar bob agwedd ar y gwasanaeth, a noda'r Cyngor fod hynny wedi effeithio ar lefel a chyflymder y gwelliant yr oedd wedi ceisio ei gyflawni. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn elwa o gymorth corfforaethol da, ac mae'r Cyngor wedi cydnabod yr heriau a wynebir ac wedi sicrhau bod £1 filiwn o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau plant. Mae'r cyllid hwn wedi ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn staff a gwasanaethau er mwyn ymdrin â'r pwysau a wynebir, yn enwedig yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal.

12 Ym maes gwasanaethau plant, mae diogelu plant yn parhau'n flaenoriaeth gyffredinol yn ogystal â chynllunio ar gyfer parhad a datblygu gwasanaethau atal. Mae nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu'n sylweddol ac roedd yn 420 ar ddiwedd y flwyddyn, sef y ffigur uchaf yng Nghymru. Yn yr un modd gwelwyd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn cynyddu i 594, sef y ffigur uchaf yng Nghymru unwaith eto.

13 Ym maes gwasanaethau oedolion, ailalluogi yw'r prif faes y mae angen ei ddatblygu ac mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd lleol, Cwm Taf, i weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol.

14 Mae gan y Cyngor nifer o fentrau a chynlluniau newydd ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau busnes pob un o'r meysydd gwasanaeth ar gyfer 2012-13 yn egluro'n gynhwysfawr y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu ynghyd ag amserlenni. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cydweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac is-ranbarthol. Mae strwythurau sy'n cefnogi partneriaeth a'r posibilrwydd o sefydlu trefniadau gweithio integredig wedi cael eu rhoi ar waith ar draws gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant.

15 Cyhoeddodd AGGCC ei dogfen sy'n dwyn y teitl *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012* ym mis Hydref 2012. Cadarnhaodd AGGCC fod adroddiad Cyfarwyddwr y Cyngor yn darparu disgrifiad cryno ar lefel uchel o berfformiad yn ystod y flwyddyn 2011-12, er nad oedd bob amser yn bosibl llunio cysylltiadau uniongyrchol rhwng y datganiadau lefel uchel yn yr adroddiad a'r dystiolaeth a oedd ar gael i AGGCC. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr ac adroddiadau'r penaethiaid gwasanaeth cynorthwyol, a gyflwynwyd fel tystiolaeth, hefyd wedi'u cyfyngu i'r wybodaeth a oedd ar gael hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2011.

16 Mae AGGCC yn nodi y caiff yr aelodau adroddiadau bob chwarter yn ystod y flwyddyn galendr ynghylch cynnydd o safbwynt rhai o'r targedau allweddol ar gyfer perfformiad yn lleol. Adroddir ynghylch dangosyddion perfformiad statudol fesul blwyddyn ariannol. Mae AGGCC o'r farn bod angen rhywfaint o waith aildrefnu er mwyn gwerthuso perfformiad y Cyngor yn gywir ar sail Cymru gyfan.

17 Nododd AGGCC y risgiau posibl a'r meysydd arfer da canlynol:

- Risgiau:
  - y niferoedd uchel o blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a'r plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, ac effaith hynny ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a dibynadwy;
  - cyflymder y gwaith moderneiddio mewn gwasanaethau oedolion;
  - mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun bod modd craffu'n effeithiol ar wybodaeth a data.
- Meysydd arfer da:
  - y *Prosiect Pili Pala* ym mhrosiect gofal dementia Clydach Court;
  - gwaith y Tîm Hyfforddi a Datblygu Staff gyda Phrifysgol Morgannwg;
  - darpariaeth fewnol Rhondda Cynon Taf o ran gofal cartref;
  - swyddogaeth Y Fframwaith o ran paratoi'r ffordd ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r strategaeth tlodi plant;
  - gwaith datblygu adolygiadau ymarfer plant ym maes diogelu plant, lle mae'r Cyngor wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol a sylweddol iawn.

## Mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn ddigonol ac mae ganddo ragolygon digonol ar gyfer gwella

18 Cafodd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc eu harolygu gan Estyn ym mis Mawrth 2012. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad arolygu ym mis Gorffennaf 2012 ac mae ar gael ar ei wefan www.estyn.gov.uk. Mae'r crynodeb canlynol wedi ei dynnu o'r adroddiad arolygu llawn.

19 'Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- bod yr awdurdod yn gwella ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'i ysgolion trwy ddefnyddio data'n well;
- bod y cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwella ac yn cael effaith dda ar ddysgwyr;
- bod aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd yn ddiweddar ynglŷn â chau ysgolion;
- bod gan yr awdurdod hanes hir o weithio mewn partneriaeth a pherthnasoedd aeddfed, sy'n helpu i gyflwyno cydweithio yn effeithiol; a
- bod arweinyddiaeth yr awdurdod yn dechrau canolbwyntio'n graffach ar godi safonau ar gyfer dysgwyr.

Fodd bynnag:

- cymedrol yw'r safonau yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 ac maent yn rhy isel yng nghyfnod allweddol 4;
- mae defnydd yr awdurdod o ddata yn gwella, ond nid yw'n arfarnu nac yn dadansoddi deilliannau'n ddigon effeithiol i fod o fudd i unigolion a grwpiau o ddysgwyr;
- mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg ledled Cymru;
- mae nifer y lleoedd dros ben yn rhy uchel, er bod cynlluniau cadarn ar waith i fynd i'r afael â hyn;
- mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn rhy anghyson; ac
- nid yw lefelau her a chraffu yn ddigon trylwyr ar draws gwasanaethau a phartneriaethau.

20 Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- bod arweinwyr a rheolwyr wedi ymrwymo'n gryf i gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i wella safonau ar gyfer dysgwyr; a
- bod yr awdurdod wedi ymrwymo i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yn 2011, o ystyried cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi dirywio ers blynyddoedd blaenorol;
- bod gwelliannau yn rhy ddiweddar i ddangos hanes llwyddiannus;
- nid aethpwyd i'r afael yn llawn ag argymhellion blaenorol i wella presenoldeb a lleihau nifer y lleoedd dros ben; ac
- mae newidiadau o ran rheolwyr yn yr awdurdod yn rhy newydd i ddangos eu heffaith ar ddysgwyr.'

21 Er mwyn parhau i wella, mae'r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Estyn, sef:

- codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- gwella cyfraddau presenoldeb ym mhob ysgol;
- gwella gwaith arfarnu a dadansoddi data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau er mwyn sbarduno gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr;
- defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod er mwyn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion;
- lleihau nifer y lleoedd dros ben;
- gwella trylwyredd a lefel y craffu a'r herio ar draws pob gwasanaeth a phartneriaeth.

## Mae'r Cyngor yn helpu i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant

22 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo rôl i'w chwarae o ran cefnogi gwaith adfywio cymdeithasol yn ei gymunedau, ac mae hynny wedi bod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ei weithgareddau arfaethedig ar gyfer gwella'n canolbwyntio ar fentrau cynyddu incwm, help gyda chyflogadwyedd, datblygu sgiliau a mynd i'r afael ag anfantais yn y farchnad lafur.

23 Mae un agwedd benodol ar weithgarwch y Cyngor wedi ei hanelu at gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Drwy ddefnyddio gweithdrefnau sydd newydd eu datblygu ar gyfer adnabod pobl o'r fath yn gynnar a defnyddio prosesau monitro gwell, ynghyd â dulliau mwy penodol o ymyrryd yn gynnar a chynnig cymorth ataliol a ddatblygwyd drwy'r rhaglen *Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd*, dywed y Cyngor ei fod wedi helpu i leihau canran y bobl rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant o 6.4 y cant yn 2009-10 i 5.1 y cant yn 2010-11 (dyma'r data diweddaraf sydd ar gael). Nodwyd mai 4.2 y cant oedd canran y bobl ifanc ar draws Cymru ar y pryd nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

24 Mae'r Cyngor wedi cytuno i gymryd rhan yn un o'n hastudiaethau eleni y bwriedir iddi feithrin dealltwriaeth o'r graddau y mae llywodraeth leol yn cefnogi camau gweithredu lleol yn ddigonol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant neu bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Byddwn yn adrodd ynghylch canlyniadau'r astudiaeth maes o law.

## Mae'r Cyngor yn sicrhau bod taliadau budd-dal tai i'w ddinasyddion yn amserol ac yn gywir

25 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant; dylai prosesau sicrhau bod taliadau amserol a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl iawn a bod mynediad priodol ar gael i'r gwasanaeth budd-daliadau.

26 Mae amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd wedi lleihau ac maent yn awr yn well na chyfartaledd Cymru. Mae'r amser a gymer i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau wedi'i gynnal ac mae ychydig yn hwy na chyfartaledd Cymru. Mae nifer yr hawliadau newydd y penderfynir yn eu cylch cyn pen 14 diwrnod yn uwch nag yn ystod blynyddoedd blaenorol, ac mae gwelliannau wedi eu cyflwyno i brosesau er mwyn lleihau camgymeriadau a sicrhau bod cyfrifiadau'n cael eu gwneud yn gywir.

27 Mae'n gadarnhaol bod nifer yr ymchwiliadau i dwyll a nifer y bobl y llwyddwyd i'w cosbi wedi cynyddu, ac ymdrinnir yn effeithiol â cheisiadau i ailystyried ac adolygu hawliadau. Fodd bynnag, mae canran y gordaliadau a nodwyd ac a adenillwyd wedi gostwng.

## Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi ennill ei blwyf, ac mae'r trefniadau cyfredol yn sicrhau bod dinasyddion yn cael darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ynghylch gwelliant dan y Mesur ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

28 Trwy gyhoeddi ei Adroddiad erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, dan adran 15 (7).

29 Mae'r Adroddiad yn nodi ystod gynhwysfawr o dystiolaeth i ddangos y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud yn erbyn ei wyth blaenoriaeth ar gyfer gwella ynghyd ag agweddau eraill ar welliant ehangach, ac mae'n nodi gwybodaeth briodol am ei weithgarwch o ran cydweithredu. Mae'r Adroddiad wedi ei strwythuro'n dda a'i drefnu'n rhesymegol, sy'n helpu'r dinesydd i ddeall y fframwaith cyfreithiol a'r cyfrifoldebau cymunedol sy'n llywio camau gweithredu'r Cyngor.

30 Mae'r Adroddiad yn darparu tystiolaeth i ddangos beth y mae'r Cyngor wedi ei wneud a pham, a beth y mae'n bwriadu ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Mae hefyd yn helpu i esbonio sut y mae'r Cyngor wedi mynd ati i wella, gan gynnwys rôl y cabinet a'r broses graffu o ran monitro cynnydd. Mae cyfraniad materion trawsbynciol sy'n helpu i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor – megis gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig a chyswllt gwell â chwsmeriaid – wedi ei integreiddio'n dda.

31 Mae'r Adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn mannau sy'n cynnig mynediad i gwsmeriaid, megis llyfrgelloedd a chanolfannau 'i bob un'.

### Mae *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2011/12* y Cyngor yn gynhwysfawr, yn deg ac yn gytbwys ac mae'n canolbwyntio'n fwy manwl ar ganlyniadau i ddinasyddion, ond gallai werthuso'n fwy clir gynnydd cyffredinol y Cyngor o safbwynt cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella

32 Dyma'r ail flwyddyn y bu'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ynghylch perfformiad sy'n edrych tuag yn ôl. Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2012, pwysleisiwyd gennym fod angen i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol a gwerthusol ynghylch sut y maent yn darparu eu gwasanaethau, a bod angen iddynt ganolbwyntio'n fwy manwl o lawer ar y canlyniadau i ddinasyddion ac ar yr effaith a gaiff gwasanaethau ar ddinasyddion.

33 Mae gan y Cyngor fframwaith sydd wedi ennill ei blwyf ar gyfer monitro perfformiad, sy'n seiliedig ar gyflwyno adroddiadau bob chwarter. Mae'r wybodaeth am berfformiad a gaiff ei bwydo i mewn i'r system hon yn gynhwysfawr ac yn gywir. Caiff gwybodaeth berthnasol am berfformiad ei hystyried a'i thrafod bob chwarter drwy gydol y flwyddyn, gan reolwyr gwasanaethau a rheolwyr corfforaethol, a gan y cabinet a'r sawl sy'n gyfrifol am waith craffu. Yn ôl y disgwyl, mae'r trefniadau hyn yn golygu bod cwestiynau'n cael eu codi ar lefelau priodol os nad yw perfformiad yn cyd-fynd â'r disgwyliadau, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag achosion a nodwyd o dangyflawni. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â'r *Astudiaeth Gwella Craffu* eleni, a fydd yn llywio ei hunanasesiad o effeithiolrwydd ei drefniadau craffu drwy ddefnyddio adolygiadau gan

gymheiriaid a gwaith dysgu a rennir â chynghorau eraill yng Nghymru.

34 Mae gwaith adrodd, yn Adroddiad y Cyngor ac yn y crynodeb a geir ohono, yn ffeithiol ac yn gytbwys ac mae'r Adroddiad yn cynnwys yr holl fesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i fonitro cynnydd. Mae'r asesiadau a gynhaliwyd yng nghyswllt pob blaenoriaeth ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn fanwl, ac maent yn cynnwys manylion am y camau gwella a gwblhawyd a dadansoddiad ystadegol perthnasol (e.e. canran y targedau a fodlonwyd). Mae'r Cyngor yn parhau i wella'r modd y mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar y gwahaniaeth y mae camau gweithredu'r Cyngor yn ei wneud i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Mewn rhai meysydd sy'n flaenoriaethau ar gyfer gwella, gallai asesiad y Cyngor esbonio'n fwy clir y manteision sy'n perthyn i gyflawniadau allweddol a nodi effeithiau unrhyw achosion o dangyflawni gan ddisgrifio'r modd y bwriedir gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hwy.

35 O ystyried hyd yr Adroddiad a lefel y manylder sydd ynddo, gall fod yn anodd i ddarllenydd ddeall y wybodaeth a gyflwynir a chynnal trosolwg cydlynol o'r adroddiad. Byddai crynodeb cyffredinol clir a byr o'r cyflawniadau allweddol a'r heriau sy'n weddill yn sicrhau bod y darllenydd, a dinesydd neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn benodol, yn cael gwerthusiad mwy ystyrlon o'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud mewn perthynas â'i flaenoriaethau ar gyfer gwella.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau

36 Rhoddodd yr archwilydd penodedig ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar, ac roedd o'r farn bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio yn ei fusnes

37 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

38 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

39 Mae’r Cyngor yn parhau â gwaith i sicrhau fod y Gymraeg wedi’i brif ffrydio i fusnes y Cyngor. Caiff hyn ei weithredu gan Weithgor y Gymraeg, sydd wedi ehangu’n ddiweddar i gynnwys adrannau eraill nad oedd cynt yn rhan o’r grŵp. Yn ogystal, mae rhaglen mewn lle i sicrhau fod rheolwyr cynlluniau busnes y Cyngor yn cwrdd â Swyddog yr Iaith Gymraeg i drafod cynnwys y Gymraeg mewn cynlluniau busnes adrannol. Mae maes gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn adran sydd wedi ei adnabod ar gyfer gwella, a chaiff hynny ei arwain drwy gyfrwng gweithgor o swyddogion dan gadeiryddiaeth y cyfarwyddwr adrannol.

40 Blaenoriaethau’r Cyngor ar gyfer y cyfnod nesaf bydd sicrhau fod cynllun gweithredu addas mewn lle i bontio’r cyfnod o ddiwedd oes *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor hyd at weithredu’r drefn newydd o safonau mewn perthynas â’r Gymraeg; a gweithredu strategaeth sgiliau ieithyddol y Cyngor.

# Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwelliant ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant yn gadarn

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwelliant dan y Mesur ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

41 Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu ar ei drefniadau cadarn ar gyfer cyflawni gwelliant, ac mae ei gynllun gwella wedi ei ystyried yn ofalus ac yn diffinio'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni a'r rhesymau pam y mae angen iddo gymryd camau gweithredu i'w cyflawni.

42 Mae *Cynllun Corfforaethol 2012/13* y Cyngor (y Cynllun) yn nodi'r wyth blaenoriaeth ar gyfer gwella y mae'n bwriadu eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun wedi ei osod yng nghyd-destun y weledigaeth tymor hwy ar gyfer yr ardal, ac mae'n cynnwys cysylltiadau â'r strategaeth gymunedol a chytundebau canlyniadau. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau lleol eraill.

43 Mae'r Cynllun wedi ei fireinio mewn nifer o ffyrdd ers y llynedd, er enghraifft, er mwyn esbonio'n fwy clir y rhesymeg dros ddewis blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan gynnwys sut y maent wedi eu llunio drwy ymgynghori â dinasyddion, busnesau a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cynllun yn ymgorffori canlyniadau'r gwaith ymgynghori a gyflawnwyd wrth lunio'r *Cynllun Cydraddoldeb Strategol*.

44 Caiff blaenoriaethau ar gyfer gwella a chamau gweithredu cysylltiedig eu gosod yng nghyd-destun hunanasesiad beirniadol o dueddiadau cyfredol o ran perfformiad, ac maent yn esbonio sut y mae perfformiad y Cyngor yn cymharu â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru a Lloegr. Caiff meysydd gwan ac achosion o dangyflawni cymharol eu cydnabod, a gweithredir ar eu sail. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Cynllun yn awr yn nodi'n glir y canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni ar gyfer pob blaenoriaeth ac yn nodi pam y mae angen iddo gymryd camau gweithredu i'w cyflawni. Mae cerrig milltir allweddol a thargedau ar waith.

45 Yn gyffredinol, mae dulliau'r Cyngor o gasglu dangosyddion perfformiad ac adrodd yn eu cylch yn ddibynadwy, er i ni sôn am rai materion sy'n ymwneud â nifer fach o ddangosyddion lle mae angen gwella'r trefniadau.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o safbwynt mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol

46 Mae'r Cyngor wedi gwella ei gynlluniau ymhellach fel eu bod yn cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall pa ganlyniadau y mae'r Cyngor yn gweithio i'w cyflawni. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i wella'r modd y mae'n gwerthuso a yw'r gweithgareddau a gaiff flaenoriaeth o safbwynt gwasanaethau'n arwain at ganlyniadau gwell i'w ddinasyddion.

47 Mae gan Dîm Integredig Cymorth i Deuluoedd y Cyngor ddull arloesol ond systematig o asesu effaith yr hyn a wneir i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed. Mae adnodd wedi ei ddatblygu sy'n nodi cost gyfannol darparu gwasanaethau cymorth. Mae'r adnodd yn gwneud hynny drwy fapio'r angen a chost y cymorth; gwerthuso effaith y

cymorth; a nodi a yw'r cymorth yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Mae'r dull gweithredu yn hybu tryloywder costau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae wedi bod yn astudiaeth arddangos gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn amlygu manteision ariannol dulliau integredig o weithredu. Gallai'r dull hwn – sy'n canolbwyntio ar y dinesydd – o nodi a gwerthuso a yw gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ai peidio ymestyn y defnydd a wneir o'r adnodd rhad ac am ddim mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

48 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth a'i asesiad o'r gwerth am arian a gynigir gan ei wasanaethau, ac mae wedi comisiynu prosiectau y bwriedir iddynt barhau i wella rheolaeth ariannol a'r modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, drwy ddefnydd ystyriol wedi'i dargedu o gyllidebau ar sail sero a dangosyddion cost uned. Mae'r Cyngor yn creu model er mwyn cyfuno ystod o ffynonellau gwybodaeth gyda'r bwriad o gymharu a chyferbynnu mesuriadau o'r gwerth am arian y mae'n ei gael gan ei wasanaethau. Mae hefyd yn datblygu cyfres o adnoddau y gall eu defnyddio i archwilio a herio ymhellach y gwerth am arian a gynigir gan wasanaethau penodol. Rydym wedi nodi'r cynnydd cadarnhaol a wneir, ac maent o'r farn y bydd y prosiect hwn yn atgyfnerthu ymhellach y trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig ac y bydd yn darparu data gwerthfawr er mwyn hwyluso her fewnol adeiladol a hunanwerthusiad cadarn o berfformiad.

49 Mae angen i ni gyflawni gwaith pellach er mwyn asesu cynnydd y Cyngor o safbwynt gwella perfformiad mewn agweddau craidd ar wasanaethau cymdeithasol ac o safbwynt datblygu ymhellach ei drefniadau TGCh ar gyfer llywodraethu. Byddwn yn adrodd ymhellach ynghylch hynny maes o law.

## Mae gan y Cyngor ddull cadarn o sicrhau effeithlonrwydd a darparu adnoddau ar gyfer gwelliannau arfaethedig mewn gwasanaethau

50 Mae'r Cyngor yn deall effaith llai o gyllid cyhoeddus, ac mae wedi defnyddio gwybodaeth briodol ac eang, boed yn wybodaeth ariannol neu'n wybodaeth arall, i seilio ei gynlluniau arni. Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol yn y tymor canolig yn asesu gofynion arfaethedig o ran buddsoddi a gwaith gosod targedau ar gyfer effeithlonrwydd, gan ystyried meysydd sy'n flaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn rhan o'r broses hon, caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau eu herio a chaiff effaith ei hasesu yn erbyn blaenoriaethau ar gyfer gwella.

51 Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o safbwynt ei faterion ariannol, trwy fframwaith effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae wedi cynnal trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol yn ystod blwyddyn ac yn y tymor canolig, ac mae'r trefniadau hynny wedi ei gynorthwyo i gyflawni ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012-13 a chadw symiau doeth o arian yn weddill mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

52 Yn ddiweddar cymeradwyodd y Cyngor ei gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14 yng nghyd-destun setliad ariannol heriol gan Lywodraeth Cymru. Drwy'r gyllideb, mae'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn meysydd sy'n flaenoriaeth a diogelu swyddi yn y cyngor heb gyflwyno cynnydd afresymol yn y trethi a delir gan drigolion lleol. Mae'r Cyngor yn wynebu bwlch cychwynnol o £9.6 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2013-14, ac mae wedi pennu cyllideb gytbwys drwy:

- sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach o safbwynt gwasanaethau ac o safbwynt corfforaethol (£4.0 miliwn);
- lleihau'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau a chynyddu ffioedd a thaliadau (£3.14 miliwn);
- rhyddhau arian o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac y gellir eu defnyddio (£2.4 miliwn).

53 Fodd bynnag, o ystyried bod y Cyngor yn amcangyfrif y bydd ganddo fwlch o ran cyllid sy'n debygol o gyfateb i oddeutu £28 miliwn dros gyfnod o dair blynedd, mae'n rhagweld y bydd angen rhagor o doriadau mewn gwasanaethau a rhagor o newidiadau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

54 Mae gan y Cyngor hanes o ymgysylltu'n dda â dinasyddion, ac mae wedi gwneud llawer iawn o hynny mewn perthynas â'i gyllideb a'i flaenoriaethau. Mae'r aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol i gyd wedi cael cyfle i gyfrannu a rhoi sylwadau.

55 Mae'r Cyngor wedi adolygu a diweddaru ei reolau ar gyfer gweithdrefnau ariannol a gweithdrefnau contractau, ac mae wedi cyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddiant i wella sgiliau ei reolwyr ym maes rheolaeth ariannol a rheoli perfformiad. Bwriad y camau gweithredu hyn yw helpu i sicrhau bod fframwaith ariannol y Cyngor yn parhau'n addas i'w ddiben.

## Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio ei drefniadau llywodraethu

56 Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn cael eu cefnogi drwy ei fframwaith rheoli perfformiad sefydledig a'i ddull cadarn o sicrhau effeithlonrwydd a gwelliannau sydd wedi eu cynllunio. Mae angen mwy o waith er mwyn cwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Risg presennol ac adnewyddu sut mae'r Cyngor yn mynd ati yn y maes hwn ac wedi hynny, i hyn gael ei gyfathrebu i aelodau etholedig a swyddogion er mwyn gwella trefniadau llywodraethu presennol.

57 Fel rhan o wneud y gwaith yma'n derfynol, dylai'r Cyngor ffurfioli Cofrestr Risg Strategol, fel fod yr holl risgiau arwyddocaol i lwyddiant ei flaenoriaethau gwella yn cael eu hymgorffori mewn un ddogfen, a nodi sut y dylir monitor a diweddaru'r Gofrestr Risg Strategol.

58 Eleni rydym wedi bod yn cynnal astudiaeth wella ar draws Cymru gyfan, a fu'n canolbwyntio ar nodi pwyntiau dysgu y dylai cynghorau eu hystyried yn ystod eu hadolygiadau llywodraethu a fydd yn arwain at lunio *Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13*. Drwy sicrhau bod camau mwy cynhwysfawr ar waith ar gyfer archwilio a hunanwerthuso trefniadau llywodraethu,

bydd cynghorau mewn sefyllfa well i allu rhoi sicrwydd i randdeiliaid ynghylch eu heffeithiolrwydd.

59 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd dysgu a nodwyd o'r astudiaeth, ac mae'n bwriadu:

- cynyddu ymwybyddiaeth o'r trefniadau a nodir yn ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol* a chynyddu perchnogaeth arnynt;
- casglu tystiolaeth briodol i alluogi hunanwerthusiad cadarn o effeithiolrwydd ac effaith trefniadau llywodraethu, ac adnabod meysydd ar gyfer gwella;
- datblygu dealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio o'r rhan y mae trefniadau llywodraethu yn ei chwarae o safbwynt eu helpu i gyflawni cylch gorchwyl y pwyllgor;
- galluogi'r cyhoedd i graffu ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i wella ymhellach ei drefniadau llywodraethu a'r cynnydd y mae'n ei wneud.

Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â swyddogion y Cyngor er mwyn darparu cymorth a her yng nghyswllt y datblygiadau arfaethedig hyn.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad iddo wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

60 Rydym wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad iddo wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon, oherwydd:

- ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ynghylch gwella, a'i fod wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- ei fod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau;
- bod ganddo ddull cadarn o sicrhau effeithlonrwydd a darparu adnoddau ar gyfer gwelliannau arfaethedig mewn gwasanaethau;
- ei fod yn parhau i ddatblygu a mireinio ei drefniadau llywodraethu;
- ei fod wedi cyhoeddi hunanasesiad o'i berfformiad sy'n gynhwysfawr, yn deg ac yn gytbwys, a'i fod yn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau i ddinasyddion;
- ei fod yn parhau i wneud cynnydd da o safbwynt mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi cyllidebu i wario £436.9 miliwn yn 2012-13. Mae hyn yn cyfateb i tua £1,864 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, disgwylir y bydd Rhondda Cynon Taf yn gwario £81 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Rhondda Cynon Taf oedd £1,121 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.49 y cant i £1,149 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 90 y cant o dai Rhondda Cynon Taf yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D, ac mae 67 y cant o'r holl dai yn perthyn i fandiau treth gyngor A a B.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 60 Llafur
- 9 Plaid Cymru
- 4 Annibynnol
- 1 Ceidwadwr
- 1 Democrat Rhyddfrydol Cymru

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr Keith Griffiths. Caiff ei gynorthwyo gan y canlynol:

- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a Phlant (Mr Ellis Williams)
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol (Mr Steve Merritt)
- Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes (Mr Christopher Bradshaw)
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol (Mr George Jones)
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro'r Cyngor (Mr Paul Lucas)
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (Mr Anthony Wilkins)

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Rondda Cynon Taf yw:

- Christine Chapman (Llafur – Cwm Cynon)
- Leighton Andrews (Llafur – Rhondda)
- Leanne Wood (Plaid Cymru – Canol De Cymru)
- Mick Antoniw (Llafur – Pontypridd)

Yr Aelodau Seneddol dros Rondda Cynon Taf yw:

- Ann Clwyd (Llafur – Cwm Cynon)
- Christopher Bryant (Llafur – Rhondda)
- Owen Smith (Llafur – Pontypridd)

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun www.rhondda-cynon-taf.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y cyfeiriad canlynol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Parc Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad canlynol gan archwilydd ar 26 Tachwedd 2012:

Keith Griffiths, Prif Weithredwr
Cynghorydd Anthony Christopher, Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

Annwyl Anthony a Keith

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau ynghylch adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd a wneir o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn mynnu fy mod yn:

- darparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau;
- cyflwyno tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu'n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012 cyflwynais farn archwilio ddiamod am y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn ddarlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd ynghylch y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon wrth y Cyngor llawn yn fy adroddiadau Archwilio Datganiadau Ariannol ar 26 Medi 2012, a chafodd adroddiad mwy manwl ei drafod â swyddogion yn rhan o gyfarfod dysgu ar y cyd ar ôl prosiect er mwyn gwella trefniadau ar gyfer archwiliad y flwyddyn nesaf.

Dim ond at dri mater y tynnais eich sylw yn fy adroddiadau Archwilio Datganiadau Ariannol:

- Rwyf wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n nodi y dylai taliadau a darpariaethau cyflog cyfartal gynnwys rhwymedigaeth ar gyfer cyfraniad pensiwn. Fodd bynnag, ar sail ei gyngor cyfreithiol ei hun, nid yw'r Cyngor wedi darparu ar gyfer cyfraniadau pensiwn ar setliadau cyflog cyfartal. Felly, mae angen i'r Cyngor fonitro achosion a dyfarniadau cyfreithiol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ei safbwynt yn parhau'n un y gellir ei amddiffyn.

- Yn y cyfrifon drafft, yn dilyn sylwadau a wnaethom y llynedd, roedd y rheolwyr wedi cynnwys dadansoddiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar wyneb y fantolen ac wedi cynnwys y nodiadau er mwyn ceisio gwella dealltwriaeth y darllenydd. Yn ystod yr archwiliad, bu i ni gytuno ar ddosbarthiad diwygiedig a rhai disgrifiadau diwygiedig â'r rheolwyr er mwyn cyflawni ymhellach y canlyniad a ddymunir.

- Daethom ar draws anawsterau wrth geisio cael digon o sicrwydd ynghylch gwerth yr asedau a gaiff eu dal gan CBRE Global Investors ar ran y Gronfa Bensiwn. Y rheswm am hynny oedd y ffaith nad oedd un datganiad sicrwydd ynghylch systemau rheoli ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12. Yn y pen draw, bu modd i ni gyflawni gwaith a gweithdrefnau archwilio ychwanegol ac amgen i gyrraedd lefel y sicrwydd a oedd yn ofynnol i gyflwyno'r farn archwilio.

Mae'r modd yr wyf wedi ystyried trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon, gan ddibynnu hefyd ar y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith ac nad oes unrhyw feysydd penodol y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw ar hyn o bryd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hynny wedi ei brofi eto neu lle gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflwynais dystysgrif ar 27 Medi 2012 i gadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi ei gwblhau.

Ar hyn o bryd disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 gyd-fynd â'r ffi y cytunwyd arni, a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yr eiddoch yn gywir

**John Herniman**
**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Gorffennaf neu fis Awst, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, C*yfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei Gynllun sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.rhondda-cynon-taf.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Esbonio ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2011-12 | Esbonio ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|---|
| Cynllunio gwasanaethau tymor canolig – cyngor effeithlon sydd mewn sefyllfa ariannol gref | Cynllunio gwasanaethau tymor canolig |
| Addysg o'r ansawdd gorau i bawb | Addysg |
| Bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach | Gofalu am strydoedd |
| Cadw pob plentyn ac unigolyn ifanc yn ddiogel a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed | Gwasanaethau plant |
| Cynorthwyo oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol | Cynnal annibyniaeth |
| Rheoli'r economi hwyr yn y nos a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | Gorfodi a rheoleiddio |
| Adfywio ein cymunedau | Adfywio pob un o'n cymunedau |
| Canolbwyntio ar y cwsmer | Cyswllt gwell â chwsmeriaid |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn ei *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2011/12* sydd ar gael gan y Cyngor ac ar ei wefan www.rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk